

## PRIFYSGOL BANGOR

### PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

**Cyfarfod:** Tachwedd 5<sup>ed</sup> 2010

**Yn bresennol:** Dr D Assinder, Ms J Caulfield, Mr R Dart, Mr J East, Mr D Fordham, Ms L Fowlie, Ms D Giles, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr G Parry, Mr J Patton, Ms E Riches, Dr G Roberts, Mr S Roberts, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau:** Miss S Barnes, Dr G Clarke, Mr E Evans, Mr M Goodwin, Mrs L Meadows, Dr D M Roberts, Mr E Roberts.

**NODER:** Llongyfarchwyd Dr D Assinder gan y Dirprwy Gofrestrydd yn sgîl ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor, ac fe'i groesawyd i'r pwyllgor. Cafwyd disgrifiad byr gan y Cadeirydd ynghylch ei brofiad perthnasol ac fe bwysleisiodd yr angen i sicrhau nad yw'r pwysau ariannol o fewn y Brifysgol yn arwain at unrhyw ddirywiad mewn iechyd a diogelwch

#### 358. COFNODION

Darllenwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar Fai 21.

#### 359. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 351(b) Safon Polisi Radon:

Cadarnhawyd y byddai cam olaf yr Arolwg Radon yn cychwyn ar ddechrau Rhagfyr 2010 ac y byddai'r adroddiad llawn ar gael erbyn Pasg 2011

(b) Cofnod 352(iii) Gofod Wedi'i Amserlennu'n Ganolog:

Cadarnhawyd bod cynnydd wedi'i wneud o ran diffinio'r elfennau technegol a pherchnogaeth gyffredinol gofod megis theatrau darlithio, ond roedd llai o eglurder ar feysydd arbenigol megis labordai.

Mynegwyd pryderon ynghylch cynnal diogelwch, e.e. ble fo adnoddau'n cael eu defnyddio y tu hwnt i oriau gan grwpiau heb gysylltiad gyda phrif feddiannwr yr adeiladau. Nodwyd bod Gweithgor wedi sefydlu Grŵp Rheoli Ystafelloedd ac roedd trafodaethau'n parhau ac adroddiad i'w gynhyrchu yn gynnar yn 2011

(c) Cofnod 354 Polisi Iechyd a Diogelwch:

Cadarnhawyd bod Cyngor y Brifysgol wedi cymeradwyo'r Polisi Iechyd a Diogelwch a fyddai'n cael ei arwyddo gan yr Is-ganghellor ar Dachwedd 5ed 2010.

(d) Cofnod 356 Cadeiryddiaeth yr Is-bwyllgor:

Nodwyd y byddai Dr Assinder yn cadeirio'r Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydrol a'r Is-bwyllgor Cemegol a Biolegol

#### 360. ADRODDIAD YR IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH CEMEGOL A BIOLEGOL

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol ar Hydref 19eg 2010. Canolbwyntiodd y pwyllgor yn bennaf ar yr Adolygiad Prifysgol Gyfan ar Reoli

### **ADOLYGIAD PERYGLON BIOLEGOL**

Cyflwynodd y Swyddog Diogelwch Biolegol grynodeb o amcanion, methodoleg a darganfyddiadau o'r Adolygiad o Reolaeth Peryglon Biolegol. Yn benodol, nodwyd :

- i. Yn dilyn dynodi diffyg hyfforddiant fel gwendid allweddol wrth reoli peryglon biolegol, gohiriwyd yr adolygiad er mwyn datblygu cyrsiau hyfforddi addas. Mae staff allweddol bellach wedi derbyn hyfforddiant priodol ac fe fydd hyfforddiant seiliedig ar Blackboard ar gael yn fuan ar gyfer myfyrwyr. Diolchwyd i'r Swyddog Cefnogi Iechyd a Diogelwch am ddatblygu'r deunydd hyfforddi.
- ii. Roedd yr Adolygiad yn dangos bod y broses o reoli peryglon biolegol sydd ynghlwm â gweithgareddau'r Brifysgol yn dda ar y cyfan gyda'r gwelliannau awgrymedig yn ymwneud â ffurfioli rheoliadau presennol a'r angen i gynnal; adnoddau ac isadeiledd mewn cyflwr priodol. Mynegwyd peth pryder am ffynonellau cyllid i'r dyfodol ar gyfer cynnal ac uwchraddio adnoddau. Dywedodd y Cadeirydd bod cyfran o'r gorbenion a ddyfarnwyd o dan y system Cost Economaidd Llawn dyfarnu grantiau ymchwil wedi'u dynodi fel cronfeydd isadeiledd ac fe ddylid eu gosod o'r neilltu i'r diben hwnnw.

Rhoddydd sicrwydd bod y nadroedd gwenwynig ym mherchnogaeth y Brifysgol wedi'u dal yn ddiogel ac mewn modd sy'n unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Ar ben hynny, mae'r Swyddfa Gartref yn arolygu'r anifeiliaid a'r llefydd y maent yn cael eu cadw ynddynt yn rheolaidd.

Cadarnhawyd bod cyrsiau ar gyfer hyfforddi staff domestig, contractwyr a llafur uniongyrchol ynghylch sut i weithio'n ddiogel mewn labordai sy'n cynnwys peryglon cemegol a biolegol ar gael ers peth amser. Disgwylir y bydd yr hyfforddiant yn cychwyn cyn y Nadolig.

Nodwyd nad yw'r cyngor wedi'i deilwra gan y Brifysgol ar Afiechyd Weils (Leptospirosis) ar gael ar hyn o bryd. Cadarnhaodd yr Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol bod yr unigolion mewn mwyaf o berygl yn ymwybodol o'r peryglon wrth fynychu gwiriadau iechyd. Cytunodd y Swyddog Diogelwch Biolegol i weithio gyda'r HSS i gynhyrchu arweiniad ar afiechyd Weils wedi'i deilwra gan y Brifysgol.

### **362. ADRODDIAD O'R GRŴP TASG GWEITHGOR DIOGELWCH (SEG)**

Rhoddydd y grynodeb ddilynol:

- i. Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol. Mewn ymateb i gais penodol gan yr Arolygydd HSE, mae mwyafrif ymdrechion SEG wedi'u cyfeirio at greu Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Prifysgol. Nodwyd bod Cynllun Gweithredu yn ddarn sylweddol o waith a bod arolygydd yr HSE yn dynodi Prifysgol Bangor i gyrff cyhoeddus eraill fel corff sy'n arddangos "arfer dda" yn y maes hwn.
- ii. Eitemau Cyfalaf a Strategol Iechyd a Diogelwch yn ymwneud ag Ystadau. Mae maint, oed a natur yr ystâd yn parhau i gynnig her sylweddol, yn enwedig o gofio'r pwysau ar adnoddau ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth berthnasol mewn ystod o feysydd, mae trefn profi ac arolygu newydd yn cael ei roi ar waith gan Ystadau a Chyfleusterau; bydd rhain yn cydweddu ac yn ffurfio rhan o'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.
- iii. Grŵp Adolygu'r Polisi Dim Ysmygu: Roedd adroddiad cychwynnol y grŵp yn dynodi nad yw pobl wastad yn dilyn y rheol 5 medr ac awgrymwyd sefydlu meysydd ysmygu dynodedig neu waharddiad ar ysmygu mewn rhannau penodol o'r safle. Barn gychwynnol SEG oedd y dylid dwyn sylw at y rheol 5 medr eto neu atgyfnerthu'r rheol

ond cytunodd mewn egwyddor i edrych ar gyflwyno gwaharddiad llwyr mewn rhai manau ar yr ystâd academaidd.

363.

### **ARCHWILIO SYSTEMAU RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH**

Rhoddwyd crynodeb o'r pecyn archwilio systemau rheolir Iechyd a Diogelwch. Datblygwyd y system meincnodi gychwynnol hon ar y cyd gyda Choleg y Gwyddorau Naturiol ac fe nodwyd y byddai archwiliadau'r holl Golegau eraill wedi'u gorffen erbyn Ebrill 2011..

Nodwyd hefyd bod yr Archwiliad wedi'i strwythuro fel bo modd dynodi gwahanol lefelau o arweinyddiaeth iechyd a diogelwch o fewn Colegau.

Mynegodd Pennaeth CoPAS ei farn na ddylid rhoi bai ar Golegau pan fo archwiliad yn dynodi meysydd diffygiol oedd y tu hwnt i'w rheolaeth hwy. Nodwyd hefyd bod angen sicrhau bod pob Coleg a phob Adran yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i fynd i'r afael â meysydd problemus wedi'u dynodi gan yr Archwiliad, sydd yn syrthio o dan eu cylch rheolaeth hwy.

364.

### **ADRODDIAD MENTRAU IECHYD**

Rhoddwyd crynodeb o fentrau cefnogi a hyrwyddo iechyd. Yn benodol, nodwyd :

- i. Syndrom Dirgrynu Llaw/Braich (HATS): Ymwelodd yr HSE â Bangor yn dilyn adroddiad am HAVS( yn adroddadwy o dan RODDIR). Roedd yr HSE yn fodlon gydag ymateb y Brifysgol i'r afiechyd ac yn dilyn hynny, mae Cadeirydd yr HSE wedi defnyddio ymateb Bangor i'r broblem fel esiampl o arfer dda.
- ii. Tystysgrifau Cadw'n Heini. Prif nod y System Cadw'n Heini, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2010, yw cefnogi pobl yn ôl i waith. Mae'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol wedi gweithio gyda meddygon lleol i hyrwyddo'r broses hon ac i sicrhau bod unigolion yn derbyn y cymorth angenrheidiol. Ar ben hynny, mae'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol wedi adolygu ac adrodd yn ffurfiol ar broses y Dystysgrif Cadw'n Heini a'i ardrawiad. Mae'r adroddiad ar gael ar lein ac fe gaiff ei ddsbarthu i ran-ddeiliaid..
- iii. Wythnos Byw'n Iach- Hydref 2010. Cafodd yr wythnos hon ei threfnu ar y cyd rhwng Undeb y Myfyrwyr a'r HSS, fel modd i gyfnewid syniadau rhwng staff a myfyrwyr. Cwblhawyd deiseb i ofyn am sgrinio am ddim ar gyfer Chlamydia i bobl ifanc o dan 25 yng Nghymru, a hynny i gyfateb â'r gwasanaeth yn Lloegr. Cyflwynwyd y ddeiseb hon i'r awdurdod perthnasol.
- iv. Tŷ Gobaith: Mae amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys teithiau cerdded nodedig, abseilio a loteri hyd yma wedi codi £6,500 i'r elusen yn 2010.
- v. Ymyraethau Iechyd - Yr Achos Busnes : Cyflwynwyd data yn dynodi'r costau uniongyrchol i'r Brifysgol yn dilyn absenoldebau staff oherwydd poen cefn. Dydi'r fenter Poen Cefn heb lwyddo o ran lleihau'r amser sy'n cael ei gollu yn gysylltiedig gyda phoen cefn a nododd y rhai sy'n dioddef o hyn y gallai mynediad i ffisiotherapi trwy'r NHS olygu amser aros o hyd at 40 wythnos. Yng ngoleuni'r sefyllfa hon, cytunwyd y byddai Grŵp Gwaith bychan( mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Busnes a Datblygu, Ystadau ac Adnoddau) yn ymchwilio i'r achos busnes dros i'r Brifysgol gefnogi darpariaeth neu hyrwyddiad ffisiotherapi ei hunan.

Mynegwyd gwerthfawrogiad o waith ac ymroddiad parhaus yr Ymarferwyr Iechyd Galwedigaethol a'r Swyddog Cefnogi Iechyd a Diogelwch

365.

### **UNRHYW FUSNES ARALL**

Codwyd y materion canlynol:

- a) Mae'r HSE yn cynnig cyrsiau am ddim i Gynrychiolwyr Undebau Llafur ar Reolaeth

## Iechyd a Diogelwch

- b) Cafwyd problemau helaeth gyda pharcio ceir ar Safle'r Normal yn ystod wythnosau cyntaf y tymor gan nad oedd myfyrwyr yn gallu pwrkasu tocynnau parcio a chyfyngiadau parcio heb eu rhoi ar waith. Bydd yr eitem hon yn cael ei basio ymlaen at Ystadau a Chyfleusterau.
- c) Mynegwyd pryderon ynghylch rheolaeth o Gontractwyr yn gweithio o fewn adeiladau academaidd ac o ran gweithredoedd yn ymwneud â'r ystâd sydd heb eu gweithredu yn dilyn Archwiliadau Iechyd a Diogelwch Colegol ac Adrannol. Cytunwyd y byddai'r eitemau hyn yn cael eu cyfeirio at yr Adran Ystadau ac Adnoddau gan ystyried ffordd o symud eitemau yn ymwneud a'r ystâd ymlaen i'r Pwyllgor.
- d) Nodwyd nad yw Mannau Ymgynnull Ar Adegau o Dân wedi eu harwyddo'n llawn a nad yw manylion ynghylch y lleoliadau galw yn cael eu darparu gan Ystadau a Chyfleusterau i Golegau/Adrannau. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei godi gydag Ystadau a Chyfleusterau..